**<u>Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-03-01(p.2)</u>**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 7 Chwefror 2001 |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Teitl: | Adroddiad Ymchwiliad Phillips – Clefyd y Gwartheg Gwallgo (BSE) |

**Diben**

1. Mae’r papur hwn a’r atodiadau yn darparu crynodeb o’r materion a godwyd yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor, yn dod â’r dystiolaeth ynghyd ac yn awgrymu fframwaith ar gyfer trafodaethau’r Pwyllgor.

2. Caiff casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor eu hadrodd yn ôl wrth y Cynulliad mewn Sesiwn Llawn, cyn y ddadl ar oblygiadau adroddiad Phillips.

**Cylch gwaith**

3. Cylch gwaith y Pwyllgor ar gyfer ystyried y materion yw:

"cwblhau archwiliad dechreuol ac adrodd ar y prif faterion sy’n deillio o Adroddiad Ymchwiliad Phillips, yn enwedig o ran:-

a. y mesurau sydd wedi eu rhoi yn eu lle i ddiogelu’r gadwyn fwyd ddynol rhag effeithiau clefyd y gwartheg gwallgo;
b. y trefniadau ar gyfer gofalu am y rhai sy’n dioddef o glefyd vCJD; a
c. chynnydd yr epidemig vCJD a’r ffordd y rhennir cyngor gwyddonol".

**Y Dystiolaeth**

4. Yn ystod ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr, clywodd y Pwyllgor gan:

- Dr Roland Salmon, Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy (CDSC)
- *Human BSE Foundation*
- Joy Whinney, Cyfarwyddwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Cymru)
- Dame Deirdre Hine, y cyn Prif Swyddog Meddygol (Cymru).

5. Yn dilyn derbyn tystiolaeth yn ystod y cyfarfod hwnnw ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at:

- Paul Boateng AS, Gweinidog Gwladol yn y Swyddfa Gartref, ynghylch yr oedi cyn cynnal cwest yn dilyn marwolaeth y rhai a fu’n dioddef o vCJD;
- Jeff Rooker AS, Gweinidog Gwladol yn yr Adran Nawdd Cymdeithasol, ynghylch cyflwyno cwrs carlam ar gyfer ceisiadau am fudd-dal i ddioddefwyr a’u teuluoedd; a

- Nicole Peachey, Rheolwr Cymru, Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu, ar sut y gellid sicrhau bod meddygon teulu yn fwy ymwybodol o’r posibilrwydd o vCJD pan fo cleifion yn dangos y symptomau perthnasol.

6. Yn ystod ei bwyllgor ar 24 Ionawr derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth oddi wrth:

- Gordon McLean, Cydlynydd Gofal CJD Cenedlaethol;
- Dr Marion Lyons, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Awdurdod Iechyd Bro Taf; a
- Hugh Gardner, Cadeirydd, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mewn sesiwn ar y cyd ag aelodau’r Pwyllgor Amaeth a Materion Gwledig cyflwynwyd tystiolaeth gan:

- Yr Athro Peter Smith, Cadeirydd Gweithredol, Pwyllgor Ymgynghorol Spongiform Encephalopathy (SEAC);
- Ann Hemingway, Aelod o Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Chadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru yr Asiantaeth Safonau Bwyd;

- Joy Whinney, Asiantaeth Safonau Bwyd;
- Chris Lawson, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS);
- Tony Glacken, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd (Cymru) (SDPPW).

**Y materion**

7. Er mwyn cynorthwyo trafodaethau’r Pwyllgor mae’r prif faterion a godwyd wedi eu nodi a’u grwpio o dan adran berthnasol y cylch gorchwyl yn Atodiadau 1 i 3.

8. Mae’r atodiadau hefyd yn cynnwys y dystiolaeth a gwybodaeth arall a gyflwynwyd gerbon y Pwyllgor sy’n berthnasol i’r adran honno, mewn trefn gronolegol.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor